Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R :	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**10 Mawrth 2022**
LLEOLIAD:	**O bell drwy gynhadledd fideo**
TEITL:	Trefniadau Cadeirydd / Is-gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
PWRPAS YR ADRODDIAD	Diweddaru'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gofyn am eu barn ar y trefniadau ar gyfer y Pwyllgor o 5 Mai 2022.
.	Er gwybodaeth a phenderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd.

Cefndir

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ("y pwyllgor") parthed Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("deddf 2021") a'r newidiadau a oedd yn effeithio'r Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021 a 3 Mehefin 2021.

(Gweler adroddiadau ar : http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(s).pdf) a https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s1589/7%20Parts%20of%20cont%20s.pdf?LLL=0)

Ar 9 Rhagfyr 2021 bu i'r Cyngor benderfynu cymeradwyo penodiadau'r unigolion canlynol fel unigolion lleyg/ annibynnol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan fod yn **weithredol o 5 Mai 2022** am un tymor gweinyddol (hyd at uchafswm o ddau dymor gweinyddol dilynol).

- Liam Hull;
- Caroline Whitby; a
- Alan Davies

(Gweler adroddiad i'r Cyngor : https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s2372/report%20-%20Recruitment%20of%20lay%20persons%20to%20the%20Governance%20and%20Audit%20Committee.pdf?LLL=0 a Chofnodion y Cyfarfod ar :

https://council.ceredigion.gov.uk/documents/g163/Printed%20minutes%2009th-Dec-2021%2010.00%20Council.pdf?T=1&LLL=0)

Mae Adran 116 Deddf 2021 yn diwygio Adran 82 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011) i gynnwys y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Fod yn unigolyn lleyg, ac ni ddylai'r
- aelod a benodwyd fel Is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol nac yn gynorthwyydd i'r weithrediaeth.

Is-gadeirydd

Argymhellir y dylai'r Is-gadeirydd fod yn benodiad o'r 3 unigolyn lleyg sydd ar y Pwyllgor.
Ystyrir hyn yn angenrheidiol am y gall amgylchiadau godi lle y byddai angen i'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd weithredu fel Cadeirydd.

(Gweler Deddf 2021 fel a ganlyn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1 a Mesur 2011 https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents)

Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae Adran 116 Deddf 2021 hefyd yn diwygio Mesur 2011 i nodi y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

O 5 Mai 2022 bydd angen i'r Pwyllgor benodi ei Gadeirydd ac Is-gadeirydd.

Y SEFYLLFA GYFREDOL

Bydd angen i'r Pwyllgor ddewis ei Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn ystod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn dilyn 5 Mai 2022 (ar hyn o bryd bwriedir cynnal y cyfarfod yma ar 29 Mehefin 2022).

Bydd y Pwyllgor felly heb Gadeirydd / Is-gadeirydd o 5/5/22-29/6/22.

Cylchdroi
Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ystyried pa mor aml y bydd yn ail-benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac a hoffai ystyried cylchdroi'r cyfnod rhwng y tri unigolyn lleyg .
Argymhellir y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gael eu penodi'n flynyddol a'u cylchdroi yn ôl y drefn.

Argymhelliad: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gytuno fel a ganlyn:

1. Dylai'r Is-gadeirydd (o 5 Mai 2022) gael ei benodi o unigolion lleyg y Pwyllgor;

2. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn 5 Mai 2022 bydd angen penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. Bydd cylchdroi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn flynyddol yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor

Ac i nodi:

4. Bydd y Pwyllgor felly heb Gadeirydd / Is-gadeirydd o 5/5/22-29/6/22.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

- Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Gofyn am farn y Pwyllgor ar y trefniadau o 5 Mai 2022;
- Sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth; a
- Sicrhau cyfansoddiad priodol y Pwyllgor

Atodiadau: Dim

Pennaeth Gwasanaeth: **Elin Prysor - Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)**

Swyddog Adrodd: Elin Prysor

Dyddiad: 10 Chwefror 2022